# DARGANFOD ARLOESEDD
## Mawrth – Mai 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**Statws RAG**

■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed
■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn y i gyrraedd y targed

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Prif allbynnau yn ystod y chwarter:

3 Erthygl Dechnegol

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd:

- BRIDIO DETHOLUS AR BLANHIGION PORTHIANT A RHEOLI PORFEYDD: Y POTENSIAL I WELLA DULLIAU LLEIHAU METHAN A PHERFFORMIAD ANIFEILIAID
- PORI CYLCHDRO; GOBLYGIADAU AR GYFER BAICH LARFÂU A LLYNGYR AR BORFEYDD
- RHEOLI PRIDD YN WELL: BIOLEG Y PRIDD

Factsheets produced:


- LLEIHAU STRAEN I WARTHEG WRTH EU TRIN
- COMPOSTIO

### Partneriaeth Arloesi Ewrop ■

**Prosiectau newydd wedi'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn:**

- Cadwyn gyflenwi Grawn Hynafol Organig
- Effaith systemau cynhyrchu llaeth cyferbyniol yng Ngorllewin Cymru ar broffil asid brasterog llaeth (omega-3 a 6 yn arbennig)

OMEGA 3 PROJECT




EIP WALES
Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

### Y wybodaeth ddiweddaraf ar brosiectau presennol:

Rheoli clwyf tatws

Dangosodd canlyniadau blwyddyn gyntaf y prosiect rheoli clwyf tatws bod eiddew yn effeithiol o ran arafu datblygiad clwy'r tatws, yn enwedig wedi'i gyfuno â sylwedd bio adfywiol. Bydd yr ail flwyddyn yn canolbwyntio ar dreialu gwahanol fathau o eiddew a chanfod y dos mwyaf addas i'w defnyddio yn yr ail arbrawf maes ar sail ganlyniadau'r profion labordy.

Tyfu asbaragws yn organig ar raddfa fechan

Gallai asbaragws rhoi'r cyfle i ffermwyr yng Nghymru i gynhyrchu cnwd uchel ei werth yn ogystal â denu gwerthiant da yn uniongyrchol o'r fferm. Nod y prosiect hwn yw monitro allbynnau a meincnodi twf asbaragws organig ar ddwy fferm yn Sir Fynwy ar raddfa cae. Cafodd yr asbaragws eu plannu ar Square Farm a Trealy Farm ger Trefynwy ar ddechrau mis Mai.



Cliciwch yma i wylio'r fideo.

### Teithiau Astudio ■


Ym mis Mawrth teithiodd Grŵp Cenhedlaeth Nesaf y Wynnstay i'r Alban i ymweld â dwy fferm. Mae Grŵp Cenhedlaeth Nesaf y Wynnstay yn anelu i roi'r cyfle i ffermwyr ifanc ddysgu o amrywiaeth o deithiau fferm, sgyrsiau gan arbenigwyr blaenllaw o'r diwydiant a theithiau astudio. Er bod y mwyafrif o'r aelodau yn ffermwyr llaeth, creda'r grŵp y gellir dysgu nifer o sgiliau trosglwyddadwy o ymweld â mentrau amaethyddol eraill.

Yn ystod y diwrnod cyntaf bu'r grŵp yn ymweld y teulu Lairs sy'n rhedeg fferm laeth. Mae'r teulu'n ffermio anifeiliaid pedigri o'r radd flaenaf ac yn adnabyddus am ennill sioeau. Ar hyn o bryd maent yn godro tua 700 o wartheg mewn parlwr cylchdro 36 pwynt ond wrthi'n adeiladu sied fawr ar gyfer 8 robot. Cafodd y grŵp fewnweledid i'r hyn y maent yn credu a allai fod yn ddyfodol ffermio llaeth. Cafwyd trafodaeth ar y camau gweithredu a gymerir o ran materion staffio hefyd.

Yn ystod yr ail ddiwrnod bu'r grŵp yn ymweld Glenaeth Farms, busnes fferm teuluol sy'n cynhyrchu dros filiwn o wyau'r diwrnod. Maent hefyd yn ffermio 10,000 o ddefaid magu, 500 o wartheg bîff magu yn ogystal â rhedeg ffatri brosesu wyau newydd. Rhoddodd yr ymweliad y cyfle i'r aelodau weld menter arallgyfeirio lwyddiannus o fewn busnes amaethyddol. Caiff y diwydiant dofednod ei ystyried fel diwydiant effeithlon tu hwnt ac mae'r ymweliad yn sicr wedi ysgogi'r aelodau i ystyried sut y gallant gynyddu effeithlonrwydd ar eu ffermydd gartref.

Yn dilyn yr ymweliadau hyn, mae'r grŵp yn fwy agored i awtomateiddio a'r syniad o ddefnyddio technoleg i wneud gwelliannau ar eu ffermydd gartref. Cafodd yr aelodau brofiadau gwerthfawr yn ystod y daith yn cynnwys gweld mentrau llwyddiannus, ehangu eu gwybodaeth a gobeithio dysgu rhywbeth newydd a defnyddiol y gallant weithredu ar eu ffermydd eu hunain.





Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government